



Gwerthusiad Doethineb Gwledig Astudiaeth Achos 1: Cynnal 'What's On' drwy Doethineb Gwledig: Aberdaugleddau Ionawr 2020



Ar ddechrau Doethineb Gwledig, daeth pob cymuned ynghyd i drafod y problemau allweddol i bobl hŷn sy'n byw yno a sut y gallai Doethineb Gwledig helpu. Gwnaeth y problemau hyn helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y Gweithwyr Datblygu, eu hymgysylltiad â phobl hŷn a gwaith gyda sefydliadau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn amlygu un enghraifft o beth sydd wedi cael ei gyflawni a'i gynnal yn Aberdaugleddau.

Canllaw yw 'What's On' gyda gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn lleol yn Aberdaugleddau. Cyflwynwyd am y tro cyntaf ym mis Medi 2017 gan y Gweithiwr Datblygu Doethineb Gwledig mewn ymateb i'r ffaith bod pobl hŷn lleol wedi dweud nad oeddent yn aml yn gwybod beth oedd ymlaen neu ar gael iddynt. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth hwn yn rhwystro pobl rhag cymryd rhan neu ddefnyddio gwasanaethau a allai eu cefnogi.

Mae'r canllaw wedi cael ei ddsbarthu drwy siopau lleol, sefydliadau, meddygfeydd, y llyfrgell ac roedd un preswlydd lleol yn casglu copïau ar gyfer ei gymdogion. Mae fersiwn electronig ar gael hefyd sy'n cael ei rhannu'n fwy eang o lawer, drwy grŵp e-bost o dros 100 o bobl. Mae hyn yn cynnwys cyfranwyr i What's On, grwpiau lleol a gwasanaethau statudol yn gwasanaethu'r gymuned, ond nid o reidrwydd yn Aberdaugleddau. Dywedodd un gwirfoddolwr wrthym y llynedd fod pobl bellach yn "dibynnu arno". Adroddodd eraill am ei lwyddiant, yn sicrhau gwybodaeth mewn print yn hytrach nag ar ffurf ddigidol yn unig. Mae'r canllaw hefyd yn adnodd gwerthfawr i ddarparwyr gwasanaethau a grwpiau cymunedol.

Drwy 'What's On' gallant ddarganfod pa ddigwyddiadau a gweithgareddau eraill sy'n digwydd yn y gymuned fel y gallant gynllunio eu gweithgareddau i osgoi dyblygu a gwrthdaro â dyddiadau digwyddiadau eraill. Mae hyn yn ei dro, yn rhoi mwy o ddewis i bobl, a chyfle i gael gafael ar ystod ehangach o weithgareddau neu gefnogaeth yn y gymuned.

Fel cyhoeddiad argraffedig, mae 'What's On' wastad wedi bod angen arian wrth law i dalu am gostau argraffu. Fe'i hariannwyd i ddechrau arni drwy'r grant Doethineb Gwledig ond buan y sicrhaodd y Gweithiwr Datblygu gyllid drwy'r cyngor tref i wneud yn siŵr bod y cyhoeddiadau misol yn parhau mewn cylchrediad.

Er y croesawyd y cyllid hwn, dim ond ar gyfer cyfnod byr fe'i bwriadwyd, ac roedd rhaid i'r Gweithiwr Datblygu oruchwylio'r cynnwys a'r gwaith o gynhyrchu'r cyhoeddiad o hyd. Os oedd 'What's On' am fod ar gael i'r gymuned o hyd, rhaid oedd adnabod datrysiad hirdymor, rhywbeth yr oedd y Gweithiwr Datblygu wastad yn edrych allan amdano. Yn y pen draw, drwy'r rhwydweithiau a'r cysylltiadau yr oedd y Gweithiwr Datblygu wedi'u meithrin a'u datblygu yn y gymuned y daethpwyd o hyd i ddatrysiad.

What's On dan reolaeth newydd

Gwelodd Youth Matters, elusen leol sy'n darparu rhaglenni a gweithgareddau i bobl ifanc, hyn yn her wych i bobl ifanc y gymuned fynd i'r afael â hi. Roedd cynllunio, dylunio, creu a chasglu gwybodaeth i gyd yn weithgareddau y gellid eu rhannu yn dasgau llai i bobl ifanc weithio arnynt mewn timau.

Roedd y cyfle yn golygu bod pawb ar eu hennill. Cynigodd y cwmni argraffu lleol ddangos y broses argraffu i'r bobl ifanc a oedd yn gweithio ar y cyhoeddiad, hyd yn oed, fel y gallent ddeall beth sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cyhoeddiad, ar bob lefel.

This listing is produced by the Rural Wisdom project. If you have a regular event or a one-off celebration or occasion in Milford that the public can attend, we will be pleased to feature it on this monthly information sheet. Please also let us know if your event is fully accessible. Email your entries by the 25th of the month to rachel.evans@volunteeringmatters.org.uk

MILFORD – WHAT'S ON
ISSUE No.2

WHEN	WHERE	WHAT	CONTACT
Throughout October	Venue given on application	Autumn Skills Courses for those 16-24 not in education or employment	The Get Going project
Sun 1st for the whole of the month	Milford Haven Library	Reading Tombola (for children)	Milford Library
Sun 4th for the whole of the month	Milford Haven Library	Milford Haven Memories monthly display – this month: "Royal Visits to Milford Haven"	Milford Library
Sun 1st 5pm-9pm	Pill Social Centre, Cellar Lane	Age 5 – 25: dance session Hip-hop, street, commercial New members welcome	
Mon 2nd 10am-2pm	PATCH, Haven's Head Business Park	Food bank and other assistance	
Mon 2nd 10am-midday	Milford Haven Library	Learning Pembrokeshire Essential skills: Literacy	
Mon 2nd 10.30-1pm	The Living Well, Habberston Community Association (Gelliswick Road, next to Stasia's hairdressers)	Board games, advice, company, refreshments everyone welcome	
Mon 2nd 12.30-2.30pm	Milford Haven Library	Learning Pembrokeshire Essential skills: Numeracy	
Mon 2nd 2-4pm	Milford Haven Library	History Hunters – or research your family	
Mon 2nd 2pm-4pm	Milford Haven Library	Afternoon Knit & N needles, wool and can all be provided	
Mon 2nd 2pm	Church of the Holy Spirit, St Lawrence Hill, Hakin	Friendship Group informal chat or discussions	

Argraffiad cynnar o What's On

Argraffiad diweddaraf gan Youth Matters

Camau tuag at gynaliadwyedd

Cymerwyd rhai camau pwysig i sicrhau bod Youth Matters yn teimlo'n hyderus ac yn barod i ymrwymo i hyn. Rhoddodd y Gweithiwr Datblygu ei hamser, i roi bob cyfle iddynt sicrhau ei fod yn gweithio, yn eu ffordd eu hunain, a defnyddiodd ei gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth dros gyfnod trosglwyddo graddol.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Sicrhau 6 mis o gyllid gan yr Awdurdod Porthladd i dalu am gostau argraffu, fel nad oedd rhaid i'r bobl ifanc boeni am hyn yn syth.
- Gweithio gyda thîm cymorth y bobl ifanc, gan eu harwain drwy bob cam o'r broses ar gyfer y cyhoeddiad cyntaf.
- Cysylltu'r tîm Youth Matters â phob cyswllt angenrheidiol ar gyfer y canllaw a chysylltu ei chysylltiadau â Youth Matters.
- Annog a galluogi Youth Matters i'w wneud yn bersonol iddynt.
- Cynnig bod yn gymorth yn y dyfodol pe bydden nhw ei angen.

Mae cynaliadwyedd yn aml yn her ar gyfer mentrau cymunedol. Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu nifer o wersi allweddol ynglŷn â beth sy'n ofynnol ar gyfer cynnal mentrau:

1. Gweld gwerth y gweithgaredd
2. Gwybod o lle i gael cyllid a sut i gael gafael arno a bod yn llwyddiannus gyda cheisiadau;
3. Cael cymorth gan rywun sydd wedi bod yn rhan o'r gweithgaredd, yn enwedig os yw cyfrifoldeb am y gweithgaredd yn cael ei drosglwyddo;
4. Buddsoddi amser yn y broses drosglwyddo;
5. Cael mynediad at rywun a all gynnig cymorth neu gyngor yn y dyfodol, os oes angen.



Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ac adnoddau yn: www.ruralwisdom.org

Astudiaethau achos eraill o Doethineb Gwledig:

1. 'What's On' (Aberdaugleddau)
2. Grŵp Trafnidiaeth (Ucheldir Swydd Perth)
3. Gwaith Rhyng-genedlaethol (Eaglesham)
4. Caffi Cymunedol (Coed-llai)
5. Grŵp Canu (Brechin)

Darllen mwy yma:

www.ndti.org.uk/news/rural-wisdom-evaluation

Pwynt Cyswilt Gwerthuso

Carol Clifford

Arweinydd y Rhaglen (Heneiddio â Phobl Hŷn)

E-bost: Carol.Clifford@ndti.org.uk

Ffôn: 01225 789135

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi)

Llawr Cyntaf

30-32 Westgate Buildings

Caerfaddon BA1 1EF

www.ndti.org.uk

